

Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019

Amser: 08:15

Lleoliad: Ystafell Cynadledda A (Llawr Gwaelod), Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Yn bresennol

- Joyce Watson AC (JW)
- Stephen Chapman, Cydlynnydd Atal Caethwasiaeth, Llywodraeth Cymru (SC)
- Nitesh Patel (NP), Swyddog Cyfathrebu Joyce Watson AC (NP)
- Ryland Doyle, Swyddog Cyfathrebu ac Ymchwil, Mike Hedges AC (RD)
- David Rowlands AC, Dwyrain De Cymru (DR)
- Liz, Intern, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (LI)
- Simon Borja, Cyfarwyddwr Datblygu Prosiectau, Cymru Ddiogelach Cyf (SB)
- Themba Moyo, Allgymorth, BAWSO (TM)
- Tony Julian, Dioddefwr Masnachu mewn Pobl (TJ)
- Rakhshanda Shahzad, Pennaeth Gwasanaethau De Cymru, BAWSO (RS)

Ymddiheuriadau

- Kim Ann Williamson MBE, Uwch-reolwr Busnes Gweithredol, Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru
- Mutale Merrill OBE, Prif Weithredwr, BAWSO

Cofnodion

Ail-etholwyd JW yn unfrydol fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Fasnachu mewn Pobl a BAWSO fel yr ysgrifenyddiaeth.

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 12 Mawrth 2019 fel cofnod cywir heb unrhyw wrthwynebiadau.

Dywedodd JW fod nifer o ddatblygiadau wedi digwydd yn ystod y 12 mis diwethaf yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, yng Nghymru a ledled y DU.

Roedd bron i 7,000 o bobl dan amheuaeth o fod yn ddioddefwyr caethwasiaeth fodern ledled y DU y llynedd. Mae hyn yn cynnwys chwe achos posib o gynaeafu organau pobl. O'r cyfanswm hwnnw roedd tua 45 y cant yn blant.

O'r bron i 7,000 o bobl a gyfeiriwyd at gynllun y Swyddfa Gartref i frwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern a helpu dioddefwyr posibl, roedd bron i chwarter wedi'u geni a'u magu yn y DU, cynnydd o 820 o atgyfeiriadau o'r fath yn 2017.

Mae'r heddlu yng Ngogledd Cymru yn ymdrin â nifer cynyddol o achosion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Ymchwiliodd y llu i

72 o adroddiadau yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda mwyafrif llethol y dioddefwyr yn wyn, Prydeinig ac o dan 20 oed.

Mae data newydd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn dangos cynnydd o 30 y cant mewn adroddiadau am achosion o gaethwasiaeth fodern ledled Cymru yn 2018.

Er gwaethaf y cynnydd cyflym mewn dioddefwyr posibl, dim ond tua 2 y cant o'r troseddau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth y rhoddir gwybod amdanynt, sy'n cael euogfarn.

Carcharwyd wyth o fasnachwyr mewn pobl ym mis Gorffennaf eleni yn dilyn erlyniad caethwasiaeth fodern fwyaf erioed y DU.

Caethiwodd y pum dyn a'r tair menyw, a oedd yn aelodau o grŵp troseddu cyfundrefnol Pwylaidd, gannoedd o bobl anobeithiol ac agored i niwed.

Yr wythnos ddiwethaf, arestiwyd tri dyn ar honiadau bod staff mewn dau gartref gofal wedi dioddef caethwasiaeth fodern yng Nghartref Nyrsio Danygraig yng Nghasnewydd a Chartref Gofal Preswyl Ashville ym Mrithdir.

Ym mis Mehefin eleni, dywedwyd fod dyn yng Nghastell-nedd wedi ei gadw fel caethwas ac wedi'i orfodi i weithio am fwy na dwy flynedd gan y deliwr sgrap Anthony Howard Baker. Cadwodd y dioddefwr mewn amodau brwnt tra'r ymosododd ei fab, Harvey Baker, a oedd yn ei ardegau, arno'n ddifrifol a pharhaus. Pan ddaeth yr heddlu o hyd i'r dioddefwr wedi i rywun roi gwybod iddynt am yr achos, roedd ei ên wedi'i thorri o ganlyniad i guriadau cyson.

Dywedodd JW ei bod yn gadarnhaol bod pobl o leiaf yn gallu cydnabod yr hyn sy'n digwydd bellach a gwybod ble i fynd am gymorth.

Aeth TJ drwy ei brofiad o gael ei fasnachu a darparwyd rhagor o wybodaeth gan TM.

Dywedodd SC nad oes un math o ddioddefwr masnachu mewn pobl. Yn achos Darrell Semester, cafodd ei ddal am 13 blynedd ac ni chafodd gyflog. Roedd pris dim cyflog yn golygu bod Darrell yn werth £200,000- £300,000. Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i bob dioddefwr gwrywaidd fynd dros y ffin. Bellach, mae gennym lochesi lle gallwn roi dynion. Mae gan ddynion lawer o broblemau, yn aml camddefnyddio sylweddau. Pan fydd dynion yn cael eu hachub, dim ond y dechrau yw hi o ran cymorth. Ariennir cydlynedd MARAC Cymru o elw trosedd ac aelod o staff BAWSO.

Dywedodd RS pe na bai MARAC ar waith, byddai'n anodd ymdrin ag achosion a helpu dioddefwyr risg uchel. Mae'n gweithio'n wych o ran darparu cymorth.

Dywedodd SC fod pob un o'r 22 awdurdod lleol a'r chwe bwrdd diogelu rhanbarthol yn cymryd rhan. Mae pobl yn aml yn ecsbloetio pobl sy'n dod draw i'r DU ar fisâu gweithwyr domestig ac sy'n gweithio oriau hir am ddim. Mae data'n dangos bod 251 o adroddiadau am gaethwasiaeth wedi'u gwneud yng Nghymru y llynedd. Yn ystod chwe mis cyntaf eleni, bu 143 o adroddiadau. Mae'r cynnydd o ganlyniad i godi ymwybyddiaeth. Trwy well ymwybyddiaeth, mae aelodau o'r cyhoedd yn dod ymlaen ac yn cysylltu â'r heddlu. Mae'r heddlu'n cymryd rhan weithredol.

Soniodd SC am achos 'Baker & Baker'. Ffoniodd cymydog yng Nghastell-nedd yr heddlu ynglŷn â gweithgaredd amheus. Ymwelodd yr heddlu a oedd wedi bod ar yr hyfforddiant codi ymwybyddiaeth, â'r safle. Sylwodd y blismones ar arwyddion o gaethwasiaeth mewn dyn 20 oed yn y fan a'r lle. Arestiodd yr heddlu ddau ddyn ar unwaith, aethpwyd â'r dioddefwr gwrywaidd i'r ysbyty a chanfuwyd ei fod wedi cael ei guro'n ddifrifol am 2 flynedd ac roedd ganddo glwyfau agored. Cafodd un o'r dynion o'r teulu Baker 10 mlynedd o garchar a chafodd y llall 6 mlynedd o garchar. Cymerodd yr achos hwn 5 mis i ddod gerbron llys barn.

Gofynnodd DR sut y rhoddir gwybod i bobl am beth i'w wneud a sut i ofyn am gymorth. Dywedodd SC fod pobl yn cael gwybod pan fydd pobl yn gadael carchardai. Mae rhaglen ysgolion ar sut i gadw'n ddiogel a sut i roi gwybod os gwelir unrhyw beth. Mae'r llinell gymorth Caethwasiaeth Fodern bob amser yn borth ar gyfer cymorth, yn ogystal â hysbysebion ar ochrau bysiau. Pan fydd pobl yn y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM), maent yn cael cymorth. Yng Nghymru, mae oedolion yn cael cymorth gan BAWSO.

Dywedodd SC na allwn eistedd yn ôl a'n bod ar y daith i sicrhau cyfiawnder. Mae gan y pedwar llu heddlu ymchwiliadau byw yn digwydd ar hyn o bryd.

Dywedodd SC fod y Swyddfa Gartref yn ariannu'r cynllun ICTA / gwarcheidwaid. Pan gynigiwyd y cynllun i gwmpasu tri awdurdod lleol yn unig, ysgrifennodd SC achos i'w ystyried i gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae ein heiriolwyr masnachu mewn plant annibynnol yn gweithio gyda'r 22 awdurdod lleol a gofalwyr maeth.

Dywedodd SC y gallai wahodd Alice Davis, sy'n arwain cynllun Barnardo i atal masnachu mewn plant, i'r cyfarfod nesaf

Dywedodd JW, pan roddodd dystiolaeth yn San Steffan flynyddoedd yn ôl ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud yng Nghymru i fynd i'r afael â masnachu mewn pobl, dadleuodd fod system warchod yn hanfodol i'w rhoi yn y bil masnachu mewn pobl / caethwasiaeth fodern.

Dywedodd SC fod yr Athro Bella Arora mewn confensiwn yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn, ar y Prosiect Americanaidd Prydeinig gyda Llysgenhadaeth Prydain yn Washington. Daeth â 25 astudiaeth waith i roi cyflwyniad ar yr hyn yr ydym yn ei wneud. Roedd gan yr Americanwyr ddiddordeb mawr yn yr hyn yr ydym yn ei wneud.

Dywedodd SC y gallai ddod ag Uwch-swyddog Ymchwilio i'r cyfarfod nesaf.

Dywedodd DB mai'r allwedd yw cael gafael ar yr asiantaethau allweddol sy'n dod i gysylltiad â'r rhai sy'n dioddefwyr posibl masnachu mewn pobl. Dywedodd SC fod hyfforddiant gydag asiantaethau allweddol a bod y sector gwirfoddol yn cael ei hyfforddi.

Dywedodd DR ei fod yn synnu nad oedd heddlu yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd NP fod cysylltiadau Heddlu De Cymru yn cael gwahoddiad. Dywedodd SC fod Dan Michel bellach gyda'r Uned Atal Trais. Dywedodd SC y gall ddod ag Uwch-swyddog Ymchwilio a Helen Woodward i'r cyfarfod nesaf.

Gofynnodd LI a yw rhai o'r dioddefwyr yn mynd yn ôl at y troseddwyr. Dywedodd RS y gallai ddigwydd a byddent mewn perygl o ail-fasnachu, ond ni fyddent yn gwneud hynny o fewn y rhwydwaith cymorth. Ond gallai ddigwydd, yn enwedig os nad oes ganddynt atebolrwydd i arian cyhoeddus a phan fydd problemau difrifol.

Dywedodd JW fod gan droseddwyr rwydwaith eang o gysylltiadau yn aml i ddod o hyd i dioddefwyr.

Cytunwyd y gellid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2020.

DRAFT